# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 2**

SAFONAU

**PENNOD 2**

YMYRRYD MEWN AWDURDODAU LLEOL

*Darpariaethau atodol*

## 31 Pwerau mynd i mewn ac arolygu

(1) Ar bob adeg resymol mae gan berson sy’n dod o fewn is-adran (2)—

(a) hawl i fynd i mewn i fangre’r awdurdod lleol o dan sylw ac unrhyw ysgol a gynhelir ganddo;

(b) hawl i arolygu unrhyw gofnodion neu ddogfennau eraill a gedwir gan yr awdurdod neu unrhyw ysgol a gynhelir ganddo, ac unrhyw ddogfennau eraill sy’n cynnwys gwybodaeth ynglyn â’r awdurdod neu unrhyw ysgol o’r fath, y mae’r person yn barnu eu bod yn berthnasol i’r modd y mae swyddogaethau yn cael eu harfer gan y person o dan neu yn rhinwedd y Bennod hon ac i wneud copïau o unrhyw gofnodion neu ddogfennau o’r fath.

(2) Y personau canlynol sy’n dod o fewn yr is-adran hon—

(a) y person a bennir mewn cyfarwyddyd o dan adran 24 neu, pan fo’r cyfarwyddyd yn pennu dosbarth ar bersonau, y person y mae’r awdurdod lleol yn ymrwymo gydag ef i’r contract neu’r trefniant arall sy’n ofynnol gan y cyfarwyddyd;

(b) y person a bennir mewn cyfarwyddyd o dan adran 25;

(c) Gweinidogion Cymru yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 26;

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(d) y person a enwebir drwy gyfarwyddyd o dan adran 26.

(3) Wrth arfer yr hawl o dan is-adran (1)(b) i arolygu cofnodion neu ddogfennau eraill, mae person ("P")—

(a) yn meddu ar yr hawl i gael mynediad i unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw aparatws neu ddeunydd cysylltiedig sy'n cael neu sydd wedi bod yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r cofnodion neu'r dogfennau eraill sydd o dan sylw, ac arolygu a gwirio eu gweithrediad, a

(b) yn cael ei gwneud yn ofynnol i'r personau canlynol roi unrhyw gymorth y mae ar P angen rhesymol amdano (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, trefnu bod gwybodaeth ar gael i'w harolygu neu ei chopïo ar ffurf ddarllenadwy)—

(i) y person y defnyddir neu y defnyddiwyd y cyfrifiadur felly ganddo neu ar ei ran;

(ii) unrhyw berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, yr aparatws neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'i weithredu.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at berson sy'n dod o fewn is-adran (2) yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw berson sy'n cynorthwyo'r person hwnnw.

(5) Yn yr adran hon mae'r termau "dogfen" a "cofnodion" ill dau yn cynnwys gwybodaeth a gofnodir ar unrhyw ffurf.